| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Tachwedd 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Archwilio Mewnol - Rheoli Fflyd** |
| **Gorfforaethol** | |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Reoli Fflyd Gorfforaethol a gafodd sgôr sicrwydd 'Isel'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar gyfer pob cyfarfod sy'n cynnwys manylion yr adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd. Adroddiadau yw'r rhain sydd fel arfer â sicrwydd 'Uchel' neu 'Ganolig'. Pan fyddwn yn cyhoeddi neu sgôr sicrwydd 'Isel' neu 'Dim' mewn adroddiad, bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad fel rhan o'i raglen i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o'r adroddiad a gallant drafod y gwelliannau sydd i'w gweithredu gyda'r rheolwr perthnasol .

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad Archwilio Mewnol ac yn cytuno ar y sicrwydd mae ei angen bod y cynllun gweithredu o fewn yr adroddiad yn cael ei weithredu'n effeithiol ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol llawn wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad eglurhaol. Y materion allweddol sy'n deillio o'r adroddiad yw:

- Polisi Cludiant sydd wedi mynd heibio'i ddyddiad;
- yr angen i wella cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth;
- angen gwelliannau i rai prosesau, gweithdrefnau a pholisïau o fewn y gwasanaeth;
- angen ystyried o ddifrif buddsoddi mewn system reoli fflyd newydd;
- gwelliannau gofynnol pan fydd gweithwyr yn cael eu penodi, er mwyn sicrhau bod eu cymhwysedd yn cael ei wirio yn ystod y broses recriwtio;

- sicrhau bod gwersi a ddysgir bob amser yn cael eu hystyried mewn achos o ddigwyddiadau a methiannau agos; a
- gwelliannau sydd eu hangen i hybu rheolaeth.

Cyn cyhoeddi'r adroddiad archwilio terfynol, gwnaethom gynnal 'cyfarfod dwysau' gyda Phennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Aelod Arweiniol y Cabinet ac uwch reolwyr, i drafod yr adroddiad archwilio a chytuno ar gynllun gweithredu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r adroddiad wedi'i drafod mewn 'cyfarfod dwysau' fel y crybwyllwyd uchod, a oedd yn cynnwys Aelod Arweiniol y Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r risgiau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn i'w gweld yn Atodiad 1, o fewn y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad archwilio.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.